

WG 35. 5. 144

GALAR GAN,

NEU,

Fyfyrdodau Hiraethlawn

AR FARWOLAETH

Y PARCHEDIG JOHN PHILLIPS,

DIWEDDAR WEINIDOG TREWEN,

YR HWN A FU FARW

*Yn Lime-Regis, Dorsetshire, y 23ain o Dachwedd, yn
y flwyddyn, 1834.*

Gan Iudenis, Aberayron.

“A Dafydd a alarnadodd yr alarnad hon.”

“Ni fachluda dy haul mwyach.”

Pr saint rhagorfraint i gyd—oll iddynt,
Eu llwyddiant a'u hadf'd,
Gwen y nef a gant hefyd,
Ac yn y bedd gwyn eu h'yd.

Mors ultima linea rerum est.

Cae'rprddin:

Ai graffwyd gan John Thomas, agos i'r Fglwys.

15181

[1835]

X205 312917



ANERCHIAD.

ANWYL GYFEILLION,

Y Pennillion canlynol a roddant ychydig o lawer o hanes bywyd duwiol, a marwolaeth gysurus y Parch. JOHN PHILLIPS; a gwybydded y darlennydd na chynhwysant ond perffaith wirionedd. Mwy o debygolrwydd i'r Cyf-aill trancedig, mewn llarieidd-dra a diwydrwydd, fyddo i'w weled yn holl Weinidogion y Gair yn gyffredinol, yw dymyniad eu hewyllysiwr da,

JUVENIS.

Aberayron, Ionawr 1, 1835.

Accessions No.	15181
Class No.	P WG16.12

GALAR GAN, &c.

- 1 **DDYFN**DEROEDD anchwiliadwy,
Doeth ragluniaeth Tri yn Un,
Rhyfeddodau dirifedi,
Pell uwchlaw amgyfred dyn;
Creadigaeth n chynnalïaeth,
Trefn Iachawdwriaeth fawr,
Dyma foroedd eang helaeth,
Uwch gwybodaeth llwch y llaw.
- 2 Mae olwynion hen ragluniaeth,
Yn eu dyrus droion maith,
Wrth fyfyrïo'n ddyfal arni
Wedi'm drysi lawer gwaith;
Hyfryd weithiau fydd ei throion,
Brydiau ereill chwerwon chwith,
Nes achosi i rai mewn manau,
Golli dagrau rif y gwllith.
- 3 Y mae llu o weision beunydd,
Ganddi'n barod with ei llaw,
A'r ffyddlonaf o'i chenadau,
Ydyw Angau brenin braw;
Pan y caffo hwn orchymyn,
Mewn mynydyn cychwyn mae,
Ar bwy bynag rhydd ei ddwylo,
Rhaid fydd iddo ufuddhau.
- 4 Nis gall lluaws o gyfeillion,
Nis gall perthynasau cu,
Nis gall cyfoeth nac anrhydedd,
Gadw draw yr Angau dû;
Nid yw crefydd na duwioldeb,
Nid yw defnyddioldeb chwaith,
Ddim yn gallu rhwystro'r Angau,
Rhag cyflawni'r marwol waith.

- 5 Nid yw diniweidrwydd bywyd,
 Harddwch gwiw, sirioldeb gwedd,
 Ddim yn ddigon gadw'r Angau
 Rhag defnyddio'i farwol gledd;
 Onide buasai *Phillips*,
 Amlwg iawn a hysbys yw,
 Gan y rhai'ny a'i hadwaenai,
 Heddyw'n rhodio tir y byw.
- 6 Ah! dych'mygaf clywaf luoedd,
 Gyda galar mawr dros ben,
 'Nawr yn gofyn mewn rhyw syndod,
 Marw *Phillips o Druwen?*
 Mi ddymunwn gael un arall
 Ro'i attebiad yn fy lle,
 Ond er galar rhaid im' atteb,
 Do, fy nghyfaill, darfu e.
- 7 Trwm yw'r newydd, ddaeth im' clustiau,
 Am hen gyfaill anwyl iawn,
 Treuliais oriau difyr lawer,
 Yn ei gwm'ni fore a nawn;
 Pan b'wy'n cofio am ei dymer,
 Hyfryd aeddfwyn dirion ef,
 Byddaf weithiau yn hiraethu,
 Am fyn'd atto fry i'r nef.
- 8 Ofer i mi chwilio am dano,
 Yn Mhenbank, yn nhy ei dad,
 Naç yn unman o'r gym'dogaeth,
 Gyda'i hen gyfeillion mad;
 Byth ni welir *John* ond hyny,
 Yn Nhrenewy' na Threwen,
 Na! fe ddarfu pob cyfeillach,
 Ag ef mwyach is y nen.
- 9 Penalltybie nid yw yno,
 Lle bu'n treulio amser mawr,
 Gyda'r teulu siriol, hawddgar,
 Sydd mewn galar dwys yn awr;
 Treuliodd lawer noswaith gyfan
 Yno, do, 'rwyf fi yn dyst,
 I iawn, fanol, ddwys fyfyrion,
 Yn Efengyl Iesu Grist.
- 10 Parkygwey'dd a Ffynnoncripyl,
Phillips nid yw yno'n awr,

Lle yn wlithog cafwyd weithiau
 Rai defnydd o'r nef i lawr;
 Penwernfawr a Phenalltcreigiau,
 A Phanteion gyda hwy,
 Nid yw *Phillips* yno heddy',
 Yn cyhoeddi marwol glwy.

11 Nid yw'r awrhon yn Bryn-Sion,
 Cilyfod na Chenarth chwaith,
 Abergwrog nid yw yno,
 Lle bu'n gweddio lawer gwaith;
 Cofia rhai'r oedfaon hyfryd,
 Gafwyd yn y lleoedd hyn,
 Nid dros enyd ar y ddaear,
 Ond 'nol myn'd fry i Sion fryn.

12 O fy nghyfaill hoff anwylaf,
 O ddawn addfwynaf oedd yn fyw,
 Beth dal i mi son am dano,
 Nid yw'n bod ar dir y byw;
 Fath flodeuyn hardd a wywodd,
 Llwy'r ddiflanodd yn y glyn,
 'Nawr gan ddegau trwy'r gym'dogaeth,
 Mae rhyw hiraeth mawr am hyn.

13 Gan mor fanol oedd ei gamrau,
 Braidd nis gall'sai pawb o'r bron,
 Ei gyhuddo o un trosedd
 Tra fu ar y ddaear hon;
 Nid perffeithrwydd oedd ei sylfaen,
 Ond rhoi hyder arno Ef
 Aeth yn ddiwedd er cyflawnder,
 I holl gyfraith lân y nef.

14 'Roedd difrifol ystyriaethau,
 Weithiau ar ei feddwl gwan,
 Pethau pwysig oedd yn synied,
 Fel cewch glywed yn y man;
 Aml siaradau am ei derfyn,
 Pan yn blentyn saith mlwydd oed,
 A'i sefyllfa dlawd, resynol,* (*Fel pechadur.)
 Duw'n dragwyddol gaiff y clod.

15 Tair-ar-ddeg o oedran ydoedd,
 Pan wnaeth arddel Iesu gwiw,
 Para wnaeth yn filwr ffyddlon,
 Tra y bu ar dir y byw;

- Buan cafodd ei dueddi* (* 16 oed.)
 'Fod yn was i Iesu Grist,
 I gynghori pechaduriaid
 'Gadw draw i'ha'g uffern drist.
- 16 Am wybodaeth dwys lafuriodd,
 Dros flynyddau er hleshad,
 Gartre y'ngwlad ei enedigaeth,
 Dan olŷgiaeth doeth ei dad;
 Lle yn ddyfal dygwyd fynu
 Ddegau o Weinidogion gwiw,
 Sydd yn gewri cywrain cyhoedd,
 Yn myddinoedd Israel Duw.
- 17 Pan yn bedair mlwydd ar bymtheg,
 'Nol yr hanes cywir gawn,
 Fe'i sefydlwyd yn Nhrenewydd,
 Lle y bu'n llafurus iawn,
 Yn ymboeni am wybodaeth,
 Mewn athroniaeth gyflawn glwys,
 Gwaith seryddion, daearyddiaeth,
 Duwinyddiaeth hynod ddwys.
- 18 Mawr y dysgwyl ydoedd arno,
 Cyn i'w amser dd'od i ben
 I ymadael a'r Drenewydd,
 Cafodd alwad i'r Drewen;
 Gwedi darfod a'r athrofa,
 Trefnodd llywydd mawr y rhod
 Ef i waith y weinidogaeth
 Pan yn dair-ar-hugain oed.
- 19 Er y dydd y ca'dd ei urddo,
 Bu'n llafurio a'i holl rym,
 Yn Drewen a'i hamryw gylehoedd,
 Hyd nes methodd ddywedyd dim;
 Chwysodd lawer yn ei hachos
 Ac ymdrechodd yn ddifin,
 Er mwyn ennill pawb o honynt,
 I fwynhau'r nefolaidd win.
- 20 Yn Drewen bu yn llafurus,
 A llwyddiannus hynod iawn,
 Mewn pum mlynedd fe ddwys bigwyd,
 Amryw gannoedd, hanes gawn;

* Yr oedd Mr. Phillips, wedi colli ei sefyddi i'w gathu
 rai misoedd cyn ymadael a'r Drewen.

- Fe fu'n foddion i 'chwanegu
 Sion deulu sydd ar daith,
 Moddion brenin i gael byddin,
 Plant a gwerin at y gwaith.
- 21 Yr ydoedd beunydd yn ystyried,
 Faint ei ddyled idd ei Dduw,
 Adeiladodd le preswylant,
 I ogoniant Iesu gwiw;
 Bryn-Sion ydyw enw'r deml,
 Dyma'r fan a thyma'r lle,
 Y bydd colofn gofam Phillips,
 Tra bo haul yn entrych ne'.
- 22 Bywiog ydoedd fel pregethwr,
 Amddiffynwr y wir ffydd,
 Pur athrawiaeth a draddodai,
 Buan aeth o'i rwymau'n rhydd
 Un oedd enwog a galluog,
 Mawr ei ddawn, nid llai ei ras,
 Ffyddlon iawn a diwyd hefyd,
 Bu dros enyd ar y ma's.
- 23 Nid rhyw weniath oedd yn gario,
 Er mwyn boddio plant y byd,
 'Nol ei allu pawb gymhellodd,
 'Ffoi yn lluoedd rhag y llid;
 Ac yn gysson fe ddangosodd,
 Do y llwybr ar bob llaw,
 Fel na chelai'r dall ei dwyllo,
 Chwaith na'i ddamnio ddydd a ddaw.
- 24 Nid oedd *Phillips* yn ffeiddio,
 Dim yn fwy, gwirionedd yw,
 Na gwel'd dynion yn rhagrithiol
 Gyda gwaith eu Harglwydd Dduw,
 Dwys annogai ei gymdogion,
 Gwnai mewn geriau llawnion llym,
 Ddod i 'mofyn gwir ddoethineb,
 A duwioldeb yn ei gryn.
- 25 Taer annogai hen ac ieuaino,
 Ddod i ganlyn Iesu gwiw,
 Da a thra dwys y gweithredai,
 Yn ddiawl i foddio Duw,
 Llawer gwaith fe'i elyw'd yn gwaeddi,
 Pod gan Iesu rasol stor,
 Haleluia, Haleluia,
 Heddyw wedi myn d'Vf mor.

- 26 Pan y methodd a phregethu,
 A hyny'n lân o ran ei lais,
 Ca'dd ei symud gan ragluniaeth,
 I *Dorsetshire* yn ngwlad y Sais;
 Fel y byddai'n fwy defnyddiol,
 Tra yn aros is y nen,
 Ond er galar, 'nol myn'd yno,
 Buan daeth ei oes i ben.
- 27 Pedwar mis ar ddeg o amser,
 Bu'n y briodasol stad,
 Cafodd blentyn gan yr Arglwydd,
 Marw fis o flaen ei dad,
 Mae eu cyrph yn isel obry,
 Yn cyd-bydiu yn y bedd,
 A'u heneidiau yn cyd-foli,
 Fry yn rhydd yn ngwlad yr hedd.
- 28 Er mor dduwiol a rhinweddol,
 Oedd Salina,* anwyl ffrynd, (*Gwraig Mr.P.)
 Er mor chwerw'r ymadawiad,
 Pan ddaeth galwad rhaid oedd myn'd;
 Prydnawn dydd Sul y ca'dd ei eni,
 Prydnawn dydd Sul darfyddodd byw,
 Caiff ryw Saboth hyfryd oleu,
 Mwy yn ddiâu gyda'i Dduw.
- 29 Deg-ar-hugain o flynyddoedd,
 Yma gafodd ar y llawr,
 Nid oes gyfrif oed na dyddiau
 Yn y wlad lle mae e'n awr;
 Oedran Brenin y breninoedd,
 Pan y cafodd farwol glwy',
 Deunaw cant a deg-ar-hugain,
 Pedair etto atynt hwy.
- 30 Ac er byred oedd y tymhor,
 Drefnwyd iddo is y nen,
 Fe fu'n ffyddlon yn ei ddiwrnod,
 Daeth a'i dasg yn llwyr i ben;
 Hyny dystiodd ef ei hunan,
 Yn nghrafangav'r Angau glae,—
 "Arglwydd Iesu derbyn f' ysbryd,"
 Ddaeth ddiwedda' o'i enau ma's.
- 31 Mynych welodd amgylchiadau
 Anymunol ar ei daith,
 Gwelodd gyfnewidiau lawer,
 Yn y dyrus anial maith;

“ Fe ymdrechodd ymdrech hyfryd,
 Darfu ei yrfa is y nen,
 Ffydd a gadwodd, yna cafodd
 Gyfiawn goron ar ei ben.”*

- 32 Cefais bleser amryw weithiau
 Yn ei gyfeillachau dwys,
 Gyda sobrwydd y siaradai
 Am y pethau mwy a'u pwys ;
 Hoff oedd iddo gael ymddyddan
 A phob oedran ddydd a nos,
 Pawb gynghorai yn ddiffrifol,
 Fyw yn dduwiol yn eu hoes.
- 33 Ffarwel, ffarwel, gyfai!l hyfryd,
 Am ryw ennyd bach yn awr,
 Rwy'n hyderu dy fod heddy'
 Mewn gwell lle nag ar y llawr ;
 Os yw'th gorph yn fwyd i bryfed,
 Mewn rhyw fan o Loegr dir,
 Mae dy enaid fry yn gwledda
 Ar y peraidd fanna pur.
- 34 Un rhagorol, hawdd ei garu,
 Gan bob graddau ydoedd e,
 Tynai sylw boneddigion,
 A thrigolion gwlad a thre ;
 Golwg hynaws mwyn a thirion,
 Ydoedd arno yn mhob man,
 Ac ymddygiad boneddigaidd,
 Pob ymgeledd ro'i i'r gwan.
- 35 'Roedd ei frodyr mewn brwdfrydedd,
 O bob enw dan y nef,
 Bawb a glywsant son am dano,
 Yn ei hoff gofleidio ef ;
 Hyd ynod y boneddigion,
 Sydd yn gwisgo'r fantell wen,†
 Pa le bynag cyfarfyddent,
 Parchent *Phillips* o'r Drewen.

* Ychydig cyn ei farwolaeth ysgrifennodd yr adnodau hyn,—2 Tim. 4. 6—8; a dymunodd eu danfon hwynt i'w anwyl fam, yr hon sydd mewn dwfn alar ar ei ol.

† Gweinidogion Eglwys Loegr.

- 35 Cyfeillion im' sydd wedi myned,
 Drosodd i'r Americ draw,
 Ond mae'n bosibl cael ei gweled,
 Oes, yn ddiau ddydd a ddaw ;
 Llyisiau'n gynnar dd'ont i'r ddaear,
 Yn bur hawddgar, heb eu ihi',
 Ond nid yw f' anwyl gyfaill *Phillips*,
 Byth i ddyfod ataf fi.
- 37 Ai byth a ddywedais, mi gamsyniais,
 Ac a bwysais yn o bell,
 Caf ei wel'd ar wedd ei Bynwr
 Mewn rhyw gyflwr lawer gwell ;
 Ac er colli ei lesferydd,
 Wrth gyhoeddi marwol glwy,
 Nol i'w gorph i ddod o'r ddaear,
 Ni fydd mud na byddar mwy.
- 38 Ei rieni, na alarwch
 Yn ormodol ar ei ol,
 Na thristewch fel rhai heb obaith,
 Nac ymddygwch fel rhai ffôl ;
 Ond diddenwch bawb eich gilydd,
 Ar yr ymadroddion hyn,
 " Gwyn fyd y meirw yn yr Arglwydd,
 Gorphwys maent ar Sion fryn."
- 39 Wrth wregys aur yr Archoffeiriad,
 Enaid *Phillips* aeth i'r lan,
 I'r drigfa lonydd, gwlad gogoniant,
 Didawl fwyniant dedwydd fan,
 I gydseinio mawl Hosanna ;
 I'r gwr fu'n dioddef yn ei le,
 Gan dalu'n llawn y gofyniadau,
 A chyflawn groesi biliau'r ne.
- 40 Rwy'n dymuno bod bendithion
 Bryniau tragwyddoldeb mawr,
 Gael ei hestyn i Salina,
 Tra bo'i yma ar y llawr ;
 Fel o'r diwedd caffo fyned,
 At ei phriod mwyn sy mla'n,
 I gydfoli yn ddiwedd,
 Fy o gylch yr orsedd lân.
- 41 Dos wylofus un hiraethus,
 A galarus yn dy glwy,
 Ymgysura fwyn Salina,
 Gwel y modd—nac wyla mwy,

'Mofyn am y cyfaill goreu,
 'Rhwn trwy angau'n ddiau ddaw,
 Rho di ofal arno'n gyfan,
 Nes mynd trwy'r Iorddonen draw

- 42 Gwyr Trewen a'r holl gym'dogaeth,
 Sydd mewn hiraeth nos a dydd,
 Eich anwyl fugail aeth i huno,
 Mawr yw swm am dano sydd ;
 Mr. Phillips roed mewn daear,
 Mawr yw'r galar sy ar ei ol,
 Fe'ch gadawodd yn y rhyfel,
 Byth ni ddychwel ef yn ol.
- 43 Er fod Phillips wedi 'madael,
 A'r Drewen er's llawer dydd,
 Swm ei lais a'i dreiddgar ddoniau,
 Yn eu clustiau heddyw sydd ;
 Ac mae wedi cyrhaedd calon,
 Do, ryw lu, rwy'n credu'n lan,
 Rhai a ganant fuddugoliaeth,
 Pan be'r ddaear oll yn dân.
- 44 Gwnewch o ddifri gyda'ch gilydd,
 Godi gweddi tua'r nef,
 Am gael etto fugail ffyddlon,
 Fyddo'n ol ei galon Ef ;
 Duwiol, dawnus, mwynaid, medrus,
 A llafurus ddydd a nos,
 Bortho'r praidd â gwir wybodaeth
 Yn athrawiaeth bur y gro's.
- 45 Llefwn bawb am fod yn barod,
 I gyfarfod brenin braw,
 Eraill eto aeth i'r siwrnau,
 Mae'n tro ninnau bron gerllaw ;
 Boed tangnefedd llawn a llwyddiant,
 Byth i'w weled yn Drewen,
 Tra bo haul, y lloer, a lleuad,
 Yw'm dymuniad, nawr, Amen.

HERE is another solemn warning.
 To us mortals here below,
 To prepare to meet the Judgment,
 Tho' in steps it may be slow ;

If of servants the most faithful
 Must obey the stern decree,
 Who on earth can plead exemption,
 And expect from death be free.
 Dark, Salina, is thy prospect,
 Cruel was the dart of Death,
 Which depriv'd thee of thy husband,
 And left thee behind on earth;
 Don't repine tho' left deserted,
 By thy PHILLIPS' pleasant smile,
 'Tis Heaven's unerring mandate,
 That apart you live awhile.

Solemn time is fast revolving,
 When you both shall meet again,
 And in blessed glorious mansions,
 More than Eden's bliss regain;
 In that country, free and happy,
 Nothing shall disturb your peace,
 Death shall never sway his sceptre,
 Nor destroy the mede of grace.

☞ A'i gwir yw, fod fy nghyfaill yn y bedd? Bēndith i'r Weddw, a'i holl gyfeillion ereill.—Ni aned neb erioed o dymer mwy caredig a siriol na Mr. P.—Barn pawb oedd, pe cawsai iechyd a bywyd, y buasai o ddefnydd mawr dros achos Mab Duw.—Llwyddianus hynod fu yn DREWEN.—Cofia rhai byth am ei bregeth ragorol i'r bobl Ieuainc, yn Penygraig, gerllaw Caerfyrddin.—Nid hawdd oedd i neb beidio bod yn garedig atto.—Cofir am ei enw a'i lafur yn hir, er byred ei oes yn y byd.

P—g.

D. D.